# Awdurdod Cynllunio Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

**ADRODDIAD BLYNYDDOL AR BERFFORMIAD CYNLLUNIO –**
**2016-17**

**RHAGAIR**

*Pleser o'r mwyaf gennyf yw cyflwyno'r trydydd Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad Cynllunio Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP).*

*Cafodd adroddiadau blynyddol ar berfformiad cynllunio eu cyflwyno fel rhan o gynigion Llywodraeth Cymru, a ymgorfforwyd yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015, i foderneiddio'r system gynllunio a gwella'r modd y caiff gwasanaethau cynllunio eu darparu yn lleol. Gobeithio'n wir bod y ddogfen hon yn cyflwyno darlun clir o'r modd yr ydym yn perfformio ein swyddogaeth gynllunio.*

*Mae Parciau Cenedlaethol yn lleoedd arbennig, a'n cyfrifoldeb ni yw sicrhau bod y dirwedd werthfawr hon yn cael ei gwarchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Rydym yn ymwybodol ein bod yn ymdrechu drwy ein swyddogaeth gynllunio i gynnal cydbwysedd iach fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.*

*Mater o falchder i ni yw mai ni yw'r awdurdod cynllunio cyntaf yng Nghymru i gael Cynllun Datblygu Lleol wedi'i fabwysiadu. Mae polisïau'r Cynllun Datblygu a gweithredu'r polisïau hynny wedi bod yn fuddiol, ac rydym wedi cychwyn ar y broses o adolygu'r cynllun lleol hwn.*

*Mae'r Parciau Cenedlaethol wedi bod ac yn parhau i fod o dan drefniadau craffu sylweddol, ac mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi gwneud 3 adroddiad arnom yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Rydym yn parhau i lwyddo i gyflawni ar lefel uwch ac wedi perfformio ein swyddogaethau cynllunio yn gyson yn uwch na chyfartaledd Cymru ar y cyfan. Mae'r trydydd adroddiad hwn yn dangos ein bod yn dal i lwyddo i gyflawni hyn.*

Cadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro - Mrs Gwyneth Hayward

**CYD-DESTUN**

**1. Mae'r adran hon yn nodi'r cyd-destun cynllunio y mae'r awdurdod cynllunio lleol yn gweithredu o'i fewn.**

1.1. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn gyfrifol am gyflawni'r gwasanaethau cynllunio yn ardal Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae ardal y Parc Cenedlaethol yn rhedeg mewn rhuban o gwmpas Arfordir Sir Benfro ac mae'n cynnwys rhannau isaf afonydd Cleddau, mae hefyd yn cynnwys mynyddoedd y Preseli a chwm Gwaun. Dyma'r unig Barc Cenedlaethol yn y DU a ddynodwyd yn bennaf am ei arfordir, ac mae ynysoedd Sir Benfro yn cael eu cynnwys yn ardal y Parc.

1.2. Mae'r Parc Cenedlaethol yn cwmpasu ardal o 614km2 ac yn un o'r Parciau Cenedlaethol yn y DU sydd â phoblogaeth mwy dwys, gyda bron i 22,000 o bobl yn byw mewn 49 o ardaloedd Cynghorau Tref a Chymuned a Dinas (ffigurau cyfrifiad 2010). Mae'r rhan fwyaf o'r Parc

Cenedlaethol yn eiddo preifat; fodd bynnag, mae rhyw chwarter o'r ardal yn dir cyhoeddus neu mewn perchnogaeth elusennol.

1.3. Cafodd Parc Cenedlaethol ei hun ei ddynodi ym 1952, gyda'r dibenion canlynol:

- gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol; a
- hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol.

**2. Y cefndir cynllunio, gan gynnwys cynlluniau datblygu a fabwysiadwyd neu a adawyd ar eu hanner.**

2.1. Cafodd Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ei fabwysiadu yn 2010 ac mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 2010 a 2021. Roedd y cynllun hwn yn disodli'r Cydgynllun Datblygu Unedol ar gyfer Sir Benfro (2000-2016). Mae'r Awdurdod wedi cynhyrchu ystod o Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) sy'n ategu ac yn rhoi arweiniad i'r gwaith o weithredu'r polisïau sydd wedi'u cynnwys yn y CDLl.

**3. Sut mae'n cyd-fynd â'r strategaeth gymunedol a/neu weithgarwch strategol a gweithredol ehangach yr Awdurdod.**

3.1. Mae gan yr Awdurdod Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol (2015-2019) sy'n nodi dull cydlynol o reoli dibenion y Parc Cenedlaethol. Mae'r Cynllun yn nodi llwybr clir rhwng dibenion y Parc Cenedlaethol a'r polisïau rheoli lle mae'r APC yn egluro beth yw'r Parc Cenedlaethol, sut mae'r Parc yn cael ei reoli, a pham y bwriedir ei reoli mewn un ffordd yn hytrach na ffordd arall. Cynllun ydyw ar gyfer sefydliadau partner, y trigolion, archwilwyr ac unrhyw un sydd â budd mwy manwl yn y Parc Cenedlaethol a rôl yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn y gwaith o reoli'r Parc.

**4. Dylanwadau mawr presennol a blaenorol ar y defnydd o'r tir (e.e. diwydiannol trwm, amaethyddol, ynni, trafnidiaeth).**

4.1. Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn enwog am ei dirweddau hardd eithriadol, a'r dylanwadau ar y tirweddau hyn, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, fydd yr arferion amaethyddol sydd wedi naddu'r dirwedd, a'r arferion fydd yn dylanwadu'n drwm ar ansawdd y dirwedd yn y dyfodol. Bydd y diwydiannau puro o amgylch yr Aber hefyd yn effeithio ar hyn. Y prif ddefnyddwyr eraill o'r tir yw'r meysydd amddiffyn a thwristiaeth.

**5. Lleoliad hanesyddol/tirwedd yr ardal, gan gynnwys AHNEau, ardaloedd cadwraeth ac ati**

5.1. Ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro mae 285 o Henebion Rhestredig, a dros 7,500 o safleoedd yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol. Mae dros 1,200 o adeiladau rhestredig a 13 o Ardaloedd Cadwraeth dynodedig yn y Parc. Mae naw ardal Tirwedd Hanesyddol yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn y Parc Cenedlaethol, ac mae 15 o Barciau a Gerddi Hanesyddol yn y Parc Cenedlaethol.

## 6. Safleoedd trefol neu wledig ac aneddiadau mawr

6.1. Ardal wledig yn bennaf yw’r Parc Cenedlaethol fel y tystir gan y ffaith i’r ardal gael ei dynodi yn Barc Cenedlaethol, gyda phocedi llai o ddatblygiadau a Chanolfannau Lleol mewn lleoliadau ar y glannau. Amcangyfrifir bod traean o'r holl aelwydydd yn y Parc Cenedlaethol yn byw ar wasgar yng nghefn gwlad mewn pentrefi llai, pentrefannau, anheddau a ffermydd gwasgaredig.

6.2. Mae'r CDLl yn nodi Trefi a Phentrefi fel Canolfannau Haen 2 neu 3 ar y sail bod Hafan Sir Benfro yn cynnwys canolfannau strategol a elwir yn Ganolfannau Haen 1 - mae'r rhain yn cynnwys canolfannau mwy megis Hwlffordd, Aberdaugleddau/Neyland, Penfro/Doc Penfro a Thref Caerfyrddin.

6.3. Ymhlith yr ardaloedd trefol allweddol yn y Parc Cenedlaethol mae Dinbych-y-pysgod (Canolfan Haen 2) a Threfdraeth, Saundersfoot a Thyddewi (Canolfannau Haen 3). Mae 19 o Ganolfannau Gwledig (Haen 4) ar hyd a lled y Parc Cenedlaethol gan gynnwys Amroth, Angle, Bosheston, Aberllydan, Dale, Dinas, Felindre Farchog, Herbrandston, Jameston, Lawrenni, Little Haven, Maenorbŷr, Gorsaf Maenorbŷr, Marloes, Niwgwl, Pont-faen, Solfach, St Ishmael a Threfin. Mae 10 arall o Ganolfannau Gwledig a leolir yn rhannol yn y Parc Cenedlaethol.

6.4. Cyfanswm nifer yr aelwydydd a nodir yng Nghyfrifiad 2011 yn y Parc Cenedlaethol yw 13,700, ac mae llety hunan-ddarpar yn cyfrif am ychydig dros 12% o'r stoc tai yn gyffredinol.

## 7. Newidiadau yn y boblogaeth a’r dylanwad ar y Cynllun Datblygu Lleol/diwygiadau i ddod.

7.1. Roedd rhagamcan Llywodraeth Cymru yn 2008 o nifer yr aelwydydd yn y Parc Cenedlaethol hwn yn dangos cynnydd o 10,490 i 11,516 (ychydig dros 1000 am y cyfnod 2011 i 2031).

7.2. Mae’r ffigyrau poblogaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn dangos gostyngiad yn y boblogaeth.

7.3. Ar gyfer yr adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol, bydd y rhagamcanion o ffigurau’r boblogaeth yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth ystyried nifer y tai fydd eu hangen dros oes y Cynllun newydd (2031).

## 8. Y GWASANAETH CYNLLUNIO

8.1. Mae'r Awdurdod wedi'i drefnu yn dri maes gwasanaeth allweddol sy'n cynnwys Cyfarwyddyd/Cynllunio, Cyflawni/Darganfod a Gwasanaethau Cynnal y Parc. Daw'r swyddogaeth gynllunio o fewn cylch gwaith y Cyfarwyddwr Cynllunio.

8.2. Mae swyddogaeth Polisi Cynllunio y Parc Cenedlaethol dan gyfarwyddyd Pennaeth Cyfarwyddyd y Parc. Y Pennaeth hwn sydd hefyd yn gyfrifol am Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, Bioamrywiaeth, Archeoleg, Llwybr yr Arfordir a llwybrau troed, iechyd a lles, materion amgylcheddol a gwybodaeth ystadegol a data.

8.3. Mae'r swyddogaethau Rheoli Datblygu a Gorfodaeth dan gyfarwyddyd yr Arweinydd Tîm: Rheoli Datblygu, ac mae’r Arweinydd hwn hefyd yn gyfrifol am gadwraeth adeiladau hanesyddol, ecoleg cynllunio, materion coed a thirwedd.

8.4. Alldro rheoli datblygu yn 2014/15 oedd £407,405, ac mae’r gyllideb ar gyfer 2016/17 wedi'i gosod ar £519,945, sef gostyngiad o 24% dros 5 mlynedd gyda lleihad yn y lefelau staffio sy’n gyfwerth ag 1 swydd llawn-amser – llwyddwyd i oresgyn hyn yn bennaf drwy fod rhai deiliaid swyddi yn gweithio llai o oriau yn ystod y flwyddyn ariannol hon, gweler isod. Mae'r gostyngiad o 24% yn cyfeirio at ffigur y gyllideb o £687,000 yn 2013/14 a £519,945 yn 2016/17. Mae’r swyddogaethau polisi cynllunio a swyddogaethau eraill Cyfarwyddyd wedi parhau ar rhyw £250,000 bob blwyddyn gan ein bod bellach wedi cychwyn ar y gwaith o adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol.

8.5. Rheolir y swyddogaeth Cynllunio gyda nifer llai o staff llawn amser ac mae arbedion wedi cael eu gwneud pan oedd cyfleoedd yn codi drwy fod rhai staff yn gweithio llai o oriau, ac ail-werthuso graddfeydd cyflog rhai swyddi. Mae'r rhain wedi cynnwys:

- Defnyddio ymgynghorwyr i gynorthwyo ar adegau brig yn y llwythi gwaith gan gynnwys yr adeg pan oedd swydd Pennaeth Rheoli Datblygu yn wag am 4 mis o'r cyfnod adrodd hwn.

- Mae cytundebau lefel gwasanaeth i ymdrin â chynllunio mwynau gyda Chyngor Sir Caerfyrddin (CSC), ac un cytundeb sy'n cynnwys gwaith ecoleg cynllunio gyda Chyngor Sir Penfro (CSP).

8.6. Wrth edrych i'r dyfodol, mae APCAP yn awyddus i gynllunio ar gyfer gallu a gwybodaeth i barhau i gyflawni’r swyddogaeth gynllunio yn dda. I'r perwyl hwn, mae'r Awdurdod yn parhau i roi blaenoriaeth uchel ar hyfforddi staff ar bob lefel yn yr adran gynllunio.

- Mae APCAP yn ymrwymedig i sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi ar gyfer eu rolau, ac felly mae pob swyddog cynllunio yn aelodau o'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI) ac mae’r Awdurdod yn talu am y tanysgrifiadau i'r corff proffesiynol hwn. Rhoddir proffil uchel i'r swyddogaeth gorfodi yn yr Awdurdod ac felly mae pob swyddog gorfodi yn aelodau o'r Gymdeithas Genedlaethol Gorfodi Cynllunio (NAPE) ac mae'r Awdurdod yn talu’r tanysgrifiadau i'r corff proffesiynol hwn.

- Mae'r Awdurdod yn disgwyl i'w gynllunwyr a'i swyddogion gorfodi gwblhau a chydymffurfio â gofynion datblygiad proffesiynol parhaus y corff RTPI/NAPE ac asesir hyn drwy drefn yr Awdurdod o arfarnu perfformiad ei staff yn flynyddol.

- Mae rhaglen leol a pherthnasol o hyfforddiant cynllunio yn cael ei chyflwyno yn fewnol gan yr Awdurdod, ac mae cynllunwyr (ac eraill gan gynnwys Aelodau) yn cael eu gwahodd i fynychu'r sesiynau hyn. Mae'r rhestr o sesiynau 2016/17 wedi'i nodi isod – sy'n dangos yr amrywiaeth enfawr o bynciau sy'n cael eu hystyried yn briodol i gynllunwyr ymwneud â hwy, yn enwedig o ystyried statws y Parc Cenedlaethol. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys rhai o'r rhaglenni eraill o hyfforddiant yr Awdurdod ar gyfer rheolwyr ac ati sy'n berthnasol i waith yr Awdurdod o gyflawni'r gwasanaeth cynllunio.

| **Dyddiad** | **Hyfforddiant** |
|---|---|
| 12-13 Mai 2017 | Cynhadledd POSW |
| 15 Mai 2017 | Seminar ar Reoliadau AEA (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) Llywodraeth Cymru a diweddariadau |
| 17 Mai 2017 | Aberglasne - Hyfforddiant Tirwedd |
| 8 Mehefin 2017 | Cynhadledd Cynllunio Cymru |
| 5 Gorffennaf 2017 | RTPI y Gorllewin - Planhigion Treulio Anaerobig |
| 5 Gorffennaf 2017 | RSAW: Cyflwr y Genedl Bensaernïol |
| 29 Medi 2017 | RTPI Gorllewin Cymru - Adfywio canol trefi |
| 18 Hydref 2017 | Diwrnod Twristiaeth Sir Benfro |
| 19 Hydref 2017 | Cynhadledd Gorfodaeth RTPI |
| 17 Gorffennaf 2017 | Pecynnau meddalwedd ystadegol |

8.7 Mae APCAP ynghyd â Chyngor Sir Penfro wedi parhau i drefnu Fforwm Asiantau. Mae'r fforwm yn cwrdd bob chwarter ac mae'n fwriad nid yn unig i gyflwyno gwybodaeth i'r asiantau am faterion cynllunio sy'n berthnasol i'w gwaith yn Sir Benfro, ond hefyd yn cynnig cyfle i asiantau gyflwyno'u barn ar y modd y mae'r ddau awdurdod cynllunio lleol yn gweithio i gymryd eu hanghenion hwy i ystyriaeth. Mae cynrychiolaeth dda o'r asiantau cynllunio lleol yn mynychu cyfarfodydd y fforwm.

8.8 Mae cydweithio yn rhan holl bwysig o ddiwylliant APCAP - ac mae hyn i'w briodoli yn bennaf yn ôl pob tebyg i'r ffaith mai Awdurdod bach yw'r Parc. Mae gweithio ar y cyd yn ein galluogi i rannu arferion da, a hefyd yn gwneud yr Awdurdod yn fwy cydnerth.

8.9 Mae perthynas waith dda rhyngom a'n hawdurdodau cyfagos, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin ac yn enwedig Sir Benfro. Rydym yn defnyddio adnoddau CSP ar gyfer monitro trefniadau adran 106 a hefyd yn defnyddio eu tîm cyfreithiol o ran drafftio a defnyddio templedi ar gyfer cytundebau cyfreithiol cynllunio. Hefyd rydym yn prynu i mewn i wasanaeth y Cyngor ar ecoleg cynllunio – gan sicrhau cysondeb dulliau ledled Sir Benfro gyfan o ran bioamrywiaeth nad yw'n cymryd sylw o ffiniau gweinyddol. Mae gan y ddau Awdurdod – CS Penfro ac APCAP gytundeb dirprwyo gyda Cadw i ymdrin â rhai ceisiadau adeiladau rhestredig - mae'r cytundeb yn caniatáu i'r swyddogion proffesiynol weithio ar draws y ffiniau - unwaith eto i gynorthwyo o ran cysondeb a chydnerthedd.

8.10 Roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn eu Hadolygiad o Wasanaethau Cynllunio Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn 2015, o'r enw 'Cyflawni Mwy gyda Llai', yn argymell mwy o gydweithio rhwng y 3 APC. Mae llawer o'r gwaith hwn yn berthnasol i bob awdurdod cynllunio lleol ar hyd a lled Cymru.

8.11 O ran rhoi'r argymhellion hyn ar waith, rydym yn y broses o weithredu system effeithiol o reoli dogfennau, uwchraddio'r wybodaeth gynllunio sydd ar gael ar draws ein Gwefan, ac yn hyrwyddo ymagwedd gyfeillgar at gwsmeriaid drwy drefnu'r gwasanaeth cymhorthfa cynllunio a chymorth cyn-ymgeisio. Byddwn yn parhau i gydweithio gyda'r Adrannau Cynllunio yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac yn gwneud cyfraniadau i POSW (Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru) drwy rannu gwaith arferion gorau.

**STORI LEOL YR AWDURDOD**

9.1. Mae'r Awdurdod wrthi yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo fel y bwriadwyd.

9.2. Mae Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol 2015-16 ar gael, ac mae copi o'r adroddiad ar wefan yr Awdurdod. Bydd yr Adroddiad Monitro 2016-17 ar gael erbyn 31 Hydref 2017.

9.3. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn clustnodi 17 o ganlyniadau allweddol erbyn diwedd cyfnod y Cynllun (h.y. 2021) ac mae 36 dangosydd yn yr Adroddiad Monitro wedi'u grwpio o dan y canlyniadau hyn i brofi perfformiad y Cynllun (adroddiad 2017).

9.4. Yn gryno, mae targedau a nodau'r Cynllun yn cael eu diwallu. Mae yna broblemau gyda 7. Mae'r materion allweddol yn ymwneud â'r cyflenwad tir sydd ar gael yn effeithiol ar gyfer codi tai; tir sy'n cael ei ddwyn ymlaen ar gyfer cyflogaeth, a darparu tai fforddiadwy.

9.5. Mae'r broses o wneud cais cynllunio yn dod yn fwyfwy cymhleth ac mae'r drefn swyddog ar ddyletswydd lle gall darpar ymgeiswyr archebu slot hanner awr gyda chynllunydd i fynd drwy'r broses gynllunio a pha wybodaeth sydd ei hangen i'w chyflwyno gyda'u cais, wedi profi'n boblogaidd eleni. Ar hyn o bryd ni chodir tâl am y gwasanaeth hwn a digon posibl bod codi tâl am wasanaeth cyn-ymgeisio yn golygu nad oes ymholiadau i'r swyddog ar ddyletswydd. Bydd y sefyllfa yn parhau i gael ei monitro. Yn amlwg, mae angen cadw'r ddysgl yn wastad rhwng bod o gymorth a chodi tâl am gyngor.

9.6. Prosiectau cyfredol

- Astudiaeth Cyflawni Tir ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Adneuo
- Prosiect Seilwaith Gwyrdd gyda Chyngor Sir Penfro
- Paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Adneuo
- Gweithredu'r System Rheoli Dogfennau
- Mynediad i'r we i geisiadau cynllunio

9.7. Pwysau lleol

- Ceisiadau amaethyddol mawr
- Monitro safleoedd carafanau a gwersylla

9.8. Gwella gwasanaethau

Gweithio tuag at yr amcanion llesiant corfforaethol canlynol:

| Amcanion Llesiant APCAP | Cyfraniad at Nodau Llesiant |
|---|---|
| 1. Hybu a chefnogi datblygiad cyflogaeth a busnesau cynaliadwy, yn enwedig ym maes twristiaeth a hamdden. | Cyfrannu at ‘Gymru Ffyniannus’ a ‘Chymru Wydn’ trwy hybu datblygiad busnesau newydd a phresennol a chynyddu nifer y swyddi gan beidio â chefnogi defnydd anghynaladwy o adnoddau naturiol. Dylai mwy o gyflogaeth gefnogi 'Cymru Fwy Cyfartal' a hefyd 'Cymru Fwy Iach'. |
| 2. Hyrwyddo a datblygu'r defnydd o reoli ecosystemau | Mae defnyddio rheoli ecosystemau yn dechneg allweddol o ran paratoi'r Asesiad Llesiant ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, o ran sicrhau 'Cymru Wydn' ac o ran paratoi unrhyw Gynllun Datblygu Lleol a Chynllun Rheoli y Parc Cenedlaethol yn y dyfodol. |
| 3. Galluogi ac annog rhagor o bobl i wella eu llesiant trwy wneud mwy o ddefnydd o'r Parc Cenedlaethol, waeth beth eu hamgylchiadau | Gall gwneud gweithgareddau yng nghefn gwlad, hyd yn oed cerdded, wella'r teimlad o lesiant a lleihau straen a gall fod yn ysbrydoliaeth. Trwy hybu gweithgareddau, annog gwirfoddolwyr a chefnogi'r rheini sydd â chyfyngiadau corfforol, cyfyngiadau economaidd neu gyfyngiadau eraill, mae'r amcan hwn yn cyfrannu at 'Gymru Fwy Iach' a 'Chymru Fwy Cyfartal'. |
| 4. Gweithio ochr yn ochr â chymunedau i'w helpu i fanteisio i'r eithaf ar Awdurdod y Parc Cenedlaethol | Mae llawer o gymunedau a grwpiau lleol eisoes yn cyfrannu at waith Awdurdod y Parc Cenedlaethol, o ymatebion ymgynghori i brosiectau gwelliannau amgylcheddol lleol. Bydd gwella graddfa a chwmpas y rhain yn ychwanegu at 'Gymru â chymunedau cydlynus'. |
| 5. Parhau i sicrhau bod cydraddoldeb yn rhan annatod o waith a diwylliant Awdurdod y Parc Cenedlaethol | Mae'r Awdurdod yn annog pobl llai abl i ymgysylltu a chyfrannu ac mae'n hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ymhlith ei staff a'i Aelodau a thrwy gyfleoedd hyfforddiant. |
| 6. Diogelu a hyrwyddo diwylliant ieithyddol, celfyddydau, a threftadaeth lleol yr ardal | Mae gan Sir Benfro ddiwylliant cyfoethog o ran y celfyddydau, treftadaeth ac iaith. Caiff hyn ei gydnabod yn rhan o hynodrwydd yr ardal gan gyfrannu at 'Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. |
| 7. Sicrhau bod ein gwaith yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang. | Trwy leihau ein hôl troed carbon yn barhaus a dilyn prosesau caffael cynaliadwy, mae'r Awdurdod hwn yn sicrhau ei fod yn cyfrannu at 'Gymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang'. Mae'r holl amcanion llesiant yn cefnogi Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang trwy ein gwaith i ddiogelu'r amgylchedd naturiol a hanesyddol, ein cymorth i'r economi leol ac ymgysylltiad cymunedol. |

9.9. Mae'r timau cynllunio yn Rheoli Datblygu ac yn Polisi Cynllunio yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau, effeithlonrwydd a chanfyddiad y cyhoedd fel sbardunwyr ar gyfer eu rhaglenni gwaith. O fewn Rheoli Datblygu, y targedau allweddol oedd:

| |
|---|
| 1. Gwneud penderfyniadau ynghynt ar geisiadau cynllunio i 70% ar gyfartaledd o geisiadau deiliaid tai o fewn 8 wythnos a 65% o bob cais arall gan gynnwys ceisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig |
| 2. Gwella'r amseroedd ymateb ar gyngor cyn-ymgeisio i 65% o fewn 30 diwrnod |
| 3. Gwneud penderfyniadau ynghynt ar gwynion gorfodi i gyfartaledd o 65% o fewn 12 wythnos |
| 4. Sefydlu system ffurfiol o fonitro achosion gorfodi |
| 5. Cofrestru ceisiadau am ryddhau amodau ar ein system APAS |
| 6. Cychwyn ar adolygiad o Ardal Gadwraeth |
| 7. Cychwyn ar y gwaith o wella canfyddiad y cyhoedd o'r gwasanaeth cynllunio drwy ymgysylltu mwy â'r gymuned |
| 8. Mewn-osod y prosiect rheoli dogfennau |
| 9. Adolygu’r prosesau cyn-ymgeisio a’r prosesau cymorthfeydd cynllunio |

Mae ffigurau perfformiad yr APCAP yn siarad drostynt eu hunain yn y tablau ar ddiwedd y ddogfen hon. Mae System Rheoli Dogfennau wedi’i phrynu ac ar hyn o bryd yn y broses o gael ei gweithredu, ac wedyn bydd pob cais ar gael ar y wefan unwaith y bydd y system rheoli dogfennau wedi’i rhoi ar waith.

**Cyflenwad Tir ar gyfer Tai:** Mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddangos cyflenwad o dir ar gyfer tai sydd ar gael yn effeithiol am bum mlynedd.

9.10. Mae’r gostyngiad parhaus yn y cyflenwad tir i’w briodoli i nifer o ffactorau, a’r mwyaf cyffredin o’r ffactorau hyn yw diffyg diddordeb gan dirberchnogion i ddatblygu eu tir yn y tymor byr a’r tymor canolig. Mae’r diddordeb mewn datblygu’r safleoedd a ddyrennir yn y Cynllun Datblygu Lleol wedi dangos cynnydd amlwg yn y blynyddoedd diwethaf hyn gyda nifer o ymholiadau cyn-ymgeisio a cheisiadau cynllunio wedi’u gwneud i'r Awdurdod. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi bod yn ddigon i gwrdd â'r diffyg cronnus o safleoedd a ddaeth ymlaen ym mlynyddoedd cyntaf y Cynllun ac mae hyn bellach yn fater i'r adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol.

9.1. Cafodd Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai ei gwblhau fis Gorffennaf 2017 sydd wedi dangos cyflenwad tir o 1.2 mlynedd. Bydd y Cynllun yn dod i ben rhan o'r ffordd drwy gyfnod y Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (dyddiad diwedd y Cynllun yw 2021) ac felly mae'r dull cyfrifo wedi cymryd hyn i ystyriaeth (fel y nodir yn Nhabl 4 o’r Nodyn Cyngor Technegol 1). Mae'r adroddiad yn defnyddio'r dull gweddilliol o gyfrifo'r cyflenwad tir.

9.2. Er mwyn helpu i ddod â safleoedd ymlaen, mae’r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn parhau i gymryd y camau canlynol:

a) Cymeradwyo ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau tai cyn belled ag y bodlonir pob ystyriaeth polisi perthnasol. Mae'r mwyafrif o’r ceisiadau a gyflwynwyd i'r Awdurdod yn

ystod y blynyddoedd diwethaf wedi bod ar safleoedd bach nad ydynt wedi'u rhestru yn y cyflenwad tir.

b) Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol diwygiedig ar Dai Fforddiadwy a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod fis Tachwedd 2014 wedi ailystyried asesiadau hyfywedd ar gyfer safleoedd a ddyrennir. Mae hefyd wedi symleiddio'r broses ar gyfer ymgeiswyr a phwysleisio bod y gofynion yn sail ar gyfer cyd-drafod. Bu cynnydd yn nifer y tirberchnogion safleoedd a ddyrannwyd sydd wedi cysylltu â'r Awdurdod gyda'r bwriad o ddod â safleoedd ymlaen i'w datblygu ers mabwysiadu'r canllawiau.

c) Mae gan yr Awdurdod ddeialog barhaus gyda pherchnogion nifer o'r dyraniadau tir yn y Parc. Mae nifer o'r tirberchnogion yn gwneud gwaith paratoadol i ddechrau dod â safleoedd ymlaen i'w datblygu.

ch) Bydd yr Awdurdod yn adolygu'r dyraniadau safleoedd drwy'r gwaith o adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol i fynd i'r afael â'r diffyg yn y tir sydd ar gael yn effeithiol.

**9.14** **Casgliad:** Ar gyfer adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol bydd hyn yn golygu edrych eto ar ofynion cyffredinol tir ar gyfer tai, ac o ganlyniad y ddarpariaeth tai yn y Cynllun, a chydnabod yr ansicrwydd yn y farchnad dai wrth bennu targedau blynyddol.

**BETH YW BARN DEFNYDDWYR GWASANAETH**

Yn 2016-17 cynhaliodd yr Awdurdod arolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid gyda'r nod o asesu barn pobl oedd wedi derbyn penderfyniad ar gais cynllunio yn ystod y flwyddyn.

Anfonwyd yr arolwg at 186 o bobl, a chyflwynodd 13% (24) ohonynt ymateb cyfan neu ymateb rhannol. Roedd mwyafrif yr ymatebion (52%) oddi wrth asiantau lleol. Roedd 40% oddi wrth aelodau'r cyhoedd. Roedd 12% o'r ymatebwyr wedi cael eu cais cynllunio diweddaraf wedi'i wrthod.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o ddatganiadau am y gwasanaeth cynllunio. Cawsant yr opsiynau ateb canlynol:

- Cytuno'n gryf;
- Tueddu i gytuno;
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno;
- Tueddu i anghytuno; ac
- Anghytuno'n gryf.


Mae Tabl 1 yn dangos y ganran o ymatebwyr a ddewisodd naill ai 'tueddu i gytuno' neu'n 'cytuno'n gryf' ar bob datganiad am ein hawdurdod cynllunio a Chymru.

**Tabl 1: Canran yr ymatebwyr oedd yn cytuno â phob datganiad, 2016-17**

| | **%** | |
|---|---|---|
| **Canran yr ymatebwyr oedd yn cytuno bod:** | **ACLl Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro** | **Cymru** |
| Mae'r ACLl yn gorfodi ei reolau cynllunio'n deg ac yn gyson | 29 | 52 |
| Rhoddodd yr ACLl gyngor da i'ch helpu i wneud cais llwyddiannus | 47 | 62 |
| Mae'r ACLl yn rhoi help trwy gydol y broses, gan gynnwys mewn perthynas ag amodau | 35 | 52 |
| Ymatebodd yr ACLl yn brydlon pan oedd ganddynt gwestiynau | 48 | 61 |
| Gwrandawodd arnynt ynghylch ei chais | 65 | 59 |
| Cafodd yr holl wybodaeth ddiweddaraf am eich cais | 33 | 51 |
| Yn fodlon yn gyffredinol ar sut deliodd yr ACLl â'ch cais | 45 | 61 |

Hefyd gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis tair o nodweddion gwasanaeth cynllunio o restr fyddai yn eu barn hwy o gymorth mwyaf iddynt gyflawni datblygiadau llwyddiannus. Mae Ffigwr 1 yn dangos canran yr ymatebwyr a ddewisodd nodwedd fel un o'u tri dewis. I ni, 'y cyfle i siarad â chynllunydd ar ddyletswydd cyn cyflwyno cais' oedd y dewis mwyaf poblogaidd.

**Ffigur 1: Nodweddion gwasanaeth cynllunio da, ACLl Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, 2016-17**




Ymhlith y sylwadau a dderbyniwyd oedd:

- "Roedd y staff o gymorth mawr, ond yr argraff a gefais oedd bod gormod ganddynt i'w wneud a bod hynny'n arafu pethau. Nid oes gennyf unrhyw gŵyn am y staff a wnaeth fy helpu, dim ond bod angen mwy ohonynt ...! "
- "Canllawiau cliriach ynglŷn â chaniatâd Adeiladau Rhestredig."
- "Mae cymorthfeydd cynllunio yn ddefnyddiol iawn ac mae dewis da o slotiau ar gael."

**EIN PERFFORMIAD 2016-17**

Mae'r adran hon yn rhoi manylion am ein perfformiad yn 2016-17. Mae'n ystyried y dangosyddion Fframwaith Perfformiad Cynllunio a data arall sydd ar gael i helpu i beintio darlun cynhwysfawr o’r perfformiad. Lle bo'n briodol rydym yn gwneud cymariaethau rhwng ein perfformiad ni a pherfformiad Cymru gyfan.

Caiff perfformiad ei dadansoddi ar draws y pum agwedd allweddol o ddarparu gwasanaeth cynllunio fel y nodir yn y Fframwaith Perfformiad Cynllunio:

- Llunio Cynllun;
- Effeithlonrwydd;
- Ansawdd;
- Ymgysylltu; a
- Gorfodi

## Llunio Cynllun


Ar 31 Mawrth 2017, ni oedd un o 22 Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) oedd â chynllun datblygu cyfredol ar waith. Mae'n ofynnol i ni gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol fis Hydref 2017. Mae’r ddogfen hon wedi’i pharatoi.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad blynyddol ar berfformiad, roedd gennym 2 flynedd o gyflenwad tir ar gyfer tai wedi’i glustnodi, gan ein gwneud yn un o 19 ACLl yng Nghymru heb y cyflenwad gofynnol o 5 mlynedd.

## Effeithlonrwydd;

Yn 2016-17, penderfynwyd ar 484 o geisiadau cynllunio, pob un yn cymryd 61 diwrnod (9 wythnos) ar gyfartaledd i’w benderfynu. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd o 76 diwrnod (11 wythnos) ar draws Cymru. Mae Ffigur 2 yn dangos yr amser cyfartalog a gymerir gan bob ACLl i benderfynu ar gais yn ystod y flwyddyn.


**Ffigur 2: Amser cyfartalog a gymerwyd (diwrnodau) i benderfynu ar geisiadau, 2016-17**



Llwyddwyd i benderfynu ar 80% o'r holl geisiadau cynllunio o fewn yr amser gofynnol. Roedd hyn yn cymharu ag 87% ledled Cymru a ni oedd un o 20 ACLl oedd wedi cyrraedd y targed o 80%.


Mae Ffigur 3 yn dangos canran y ceisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn yr amser gofynnol ar draws y pedwar prif fath o gais cynllunio ar gyfer ein ACLl a Chymru. Mae'n dangos ein bod wedi penderfynu ar 86% o geisiadau i ddeiliaid tai o fewn yr amser gofynnol.

**Ffigur 3: Canran y ceisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn yr amserlenni gofynnol, yn ôl math, 2016-17**




Rhwng 2015-16 a 2016-17, fel y dengys Ffigur 4, cynyddodd y canran o geisiadau cynllunio a benderfynwyd gennym o fewn yr amser gofynnol o 72%. Hefyd gwelwyd cynnydd ar draws Cymru.

**Ffigur 4: Canran y ceisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn yr amserlenni gofynnol**





Dros yr un cyfnod:

- Bu cynnydd yn nifer y ceisiadau a dderbyniwyd gennym; a
- Bu gostyngiad yn nifer y ceisiadau a benderfynwyd.

**Ceisiadau ar raddfa fawr**

Penderfynwyd ar 3 cais cynllunio mawr yn 2016-17, nad oedd yr un ohonynt yn destun Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Cymerodd pob cais, ar gyfartaledd, 448 diwrnod (64 wythnos) i'w penderfynu. Fel y dengys Ffigur 5, dyma'r trydydd amser hiraf ar gyfartaledd a gymerwyd o bob ACLl Cymru.


**Ffigur 5: Amser cyfartalog (diwrnodau) a gymerwyd i benderfynu ar gais mawr, 2016-17**




Penderfynwyd ar 0% o'r ceisiadau mawr hyn o fewn yr amser y cytunwyd arno, y ganran isaf o bob ACLl Cymru.

Mae Ffigur 6 yn dangos canran y ceisiadau mawr a benderfynwyd o fewn yr amser gofynnol yn ôl y math o gais mawr. Penderfynwyd ar 0% o'n ceisiadau mawr 'safonol' h.y. y rhai nad oedd angen AEA arnynt o fewn y terfyn amser statudol o 8 wythnos.


**Ffigur 6: Canran y ceisiadau mawr a benderfynwyd o fewn yr amserlenni gofynnol yn ystod y flwyddyn, yn ôl math, 2016-17**



Ers 2015-16 roedd canran y ceisiadau mawr a benderfynwyd o fewn yr amser gofynnol wedi gostwng o 11%. Yn yr un modd, roedd nifer y ceisiadau mawr a benderfynwyd wedi gostwng tra bod nifer y ceisiadau oedd yn destun AEA a benderfynwyd yn ystod y flwyddyn wedi aros yr un peth.

Dengys Ffigur 7 y duedd o ran canran y ceisiadau cynllunio mawr a benderfynwyd o fewn yr amserlenni gofynnol yn y blynyddoedd diwethaf, a sut mae hyn yn cymharu â Chymru gyfan.

**Ffigur 7: Canran y ceisiadau cynllunio mawr a benderfynwyd o fewn yr amserlenni gofynnol**




Dros yr un cyfnod:
- Cynyddodd canran y ceisiadau bach a benderfynwyd o fewn yr amser gofynnol o 74% i 79%;
- Cynyddodd canran y ceisiadau gan ddeiliaid tai a benderfynwyd o fewn yr amser gofynnol o 83% i 86%; a
- Cynyddodd canran y ceisiadau eraill a benderfynwyd o fewn yr amser gofynnol o 83% i 85%.

## Ansawdd


Yn 2016-17, gwnaeth ein Pwyllgor Cynllunio 33 o benderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn ystod y flwyddyn, oedd yn cyfateb i 7% o'r holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd. Ar draws Cymru 6% o'r holl benderfyniadau cais cynllunio a wnaed gan bwyllgor cynllunio.

Roedd 9% o’r penderfyniadau hyn a wnaed gan yr aelodau yn groes i gyngor y swyddogion. Roedd hyn yn cymharu â 11% o'r penderfyniadau a wnaed gan yr aelodau ar draws Cymru. Roedd hyn yn cyfateb i 0.6% o'r holl benderfyniadau ar geisiadau cynllunio a wnaed yn groes i gyngor y swyddogion; 0.7% ar draws Cymru.

Yn 2016-17, gwnaed 6 apêl yn erbyn ein penderfyniadau cynllunio, oedd yn cyfateb i 1.1 apêl am bob 100 o geisiadau a dderbyniwyd. Dyma'r gymhareb isaf o apeliadau i geisiadau yng Nghymru.

Mae Ffigwr 8 yn dangos sut mae nifer yr apeliadau a dderbyniwyd wedi newid ers 2015-16 a sut mae hyn yn cymharu â Chymru.


**Ffigur 8: Nifer yr apeliadau a dderbyniwyd am bob 100 o geisiadau cynllunio**




Yn 2016-17, cymeradwywyd 97% o geisiadau cynllunio. Mae hyn yn cymharu â 91% ledled.

O'r 6 apêl a benderfynwyd yn ystod y flwyddyn, gwrthodwyd 83%. Fel y dengys Ffigwr 9, hwn oedd y ganran uchaf o apeliadau a wrthodwyd yng Nghymru, a ni oedd un o 10 ACLl a gyrhaeddodd y targed o 66%.

**Ffigur 9: Canran yr apeliadau gafodd eu gwrthod, 2016-17**




Yn ystod 2016-17, cawsom 1 cais am gostau mewn apêl adran 78 wedi’i gadarnhau, gan ein gwneud yn un o'r 11 ACLl i gael o leiaf un cais o'r fath wedi'i gadarnhau yn ystod y flwyddyn.

## Ymgysylltu

Ni yw:

- un o’r 24 o awdurdodau cynllunio lleol oedd yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio; ac
- un o 2 awdurdod cynllunio lleol oedd â chofrestr rhannol ar-lein o geisiadau cynllunio.

Fel y dengys Tabl 2, cytunodd 47% o'r rhai a ymatebodd i'n harolwg bodlonrwydd cwsmeriaid yn 2016-17 bod yr ACLl yn rhoi cyngor da i'w helpu i wneud cais llwyddiannus.

**Tabl 2: Adborth o’n harolwg bodlonrwydd cwsmeriaid 2016-17**


| | % | |
|---|---|---|
| **Canran yr ymatebwyr oedd yn cytuno bod:** | **ACLl Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro** | **Cymru** |
| Rhoddodd yr ACLl gyngor da i’ch helpu i wneud cais llwyddiannus | 47 | 62 |
| Gwrandawodd arnynt ynghylch ei chais | 65 | 59 |

## Gorfodi

Yn 2016-17, ymchwiliwyd i 121 o achosion gorfodi, oedd yn cyfateb i 5.3 fesul 1,000 o'r boblogaeth. Hon oedd yr ail gyfradd uchaf yng Nghymru. Cymerwyd, ar gyfartaledd, 140 o ddiwrnodau i ymchwilio i bob achos gorfodaeth.

Ymchwiliwyd i 69% o'r achosion gorfodi hyn o fewn 84 diwrnod. Ar draws Cymru cafodd 85% eu hymchwilio o fewn 84 diwrnod. Mae Ffigur 10 yn dangos canran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod ar draws pob awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru.


**Ffigur 10: Canran yr achosion gorfodi a ymchwiliwyd o fewn 84 diwrnod, 2016-17**



Dros yr un cyfnod, llwyddwyd i ddatrys 118 o achosion gorfodi, gan gymryd, ar gyfartaledd, 195 diwrnod i ddatrys pob achos.

Cafodd 70% o'r camau gorfodi hyn ei wneud o fewn 180 diwrnod o ddechrau'r achos. Fel y dengys Ffigur 11 roedd hyn o'i gymharu â 73% o achosion gorfodi gafodd eu datrys o fewn 180 diwrnod ar draws Cymru.

**Ffigur 11: Canran yr achosion gorfodi gafodd eu datrys o fewn 180 diwrnod, 2016-17**



ATODIAD A – FFRAMWAITH PERFFORMIAD

TROSOLWG

| MESUR | DA | GWEDDOL | GWELLA | CYFARTALEDD CYMRU | ACLl Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Y LLYNEDD | ACLl Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ELENI |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llunio cynllun** | | | | | | |
| A oes Cynllun Datblygu cyfredol yn ei le sydd o fewn cyfnod y cynllun? | Oes | | Na | Oes | Oes | Oes |
| Y gwyriad, wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), oddi wrth y dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol, mewn misoedd. | <12 | 13-17 | 18+ | 58 | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Adroddiadau Monitro Blynyddol wedi'u cynhyrchu yn dilyn mabwysiadu'r CDLl | Do | | Naddo | Do | Do | Do |
| Cyflenwad tir yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer tai ar hyn o bryd mewn blynyddoedd | >5 | | <5 | 2.9 | 1.8 | 2 |
| **Effeithlonrwydd** | | | | | | |
| Canran y ceisiadau "mawr" gafodd eu penderfynu o fewn y cyfnodau amser gofynnol | Heb ei bennu | Heb ei bennu | Heb ei bennu | 59 | 11 | 0 |

| MESUR | DA | GWEDDOL | GWELLA | CYFARTALEDD CYMRU | ACLl Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Y LLYNEDD | ACLl Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ELENI |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i benderfynu ar geisiadau "mawr" mewn diwrnodau | Heb ei bennu | Heb ei bennu | Heb ei bennu | 250 | 204 | 448 |
| Canran yr holl geisiadau a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol | >80 | 60.1-79.9 | <60 | 87 | 72 | 80 |
| Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i benderfynu ar yr holl geisiadau mewn diwrnodau | <67 | 67-111 | 112+ | 76 | 61 | 61 |
| **Ansawdd** | | | | | | |
| Canran y penderfyniadau a wnaed gan yr Aelodau yn groes i gyngor swyddogion | <5 | 5.1-8.9 | 9+ | 11 | 5 | 9 |
| Canran yr apeliadau gafodd eu gwrthod | >66 | 55.1-65.9 | <55 | 61 | 100 | 83 |
| Ceisiadau am gostau mewn apêl Adran 78 gafodd eu cadarnhau yn y cyfnod adrodd | 0 | 1 | 2+ | 0 | 0 | 1 |
| **Ymgysylltu** | | | | | | |

| MESUR | DA | GWEDDOL | GWELLA | CYFARTALEDD CYMRU | ACLl Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Y LLYNEDD | ACLl Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ELENI |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A yw'r awdurdod cynllunio lleol yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio? | Ydy | | Na | Ydy | Ydy | Ydy |
| A oes gan yr awdurdod cynllunio lleol swyddog ar ddyletswydd i roi cyngor i aelodau'r cyhoedd? | Oes | | Na | Oes | Oes | Oes |
| A oes gan wefan yr awdurdod cynllunio lleol gofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio sydd ar gael i aelodau'r cyhoedd olrhain camau'r ceisiadau (a gweld eu cynnwys)? | Oes | Rhannol | Na | Oes | Rhannol | Rhannol |
| **Enforcement** | | | | | | |
| Canran yr achosion gorfodi gafodd eu hymchwilio (i benderfynu a yw rheolau cynllunio wedi'u torri ac, os felly, penderfynu ai cymryd camau gorfodi neu beidio) o fewn 84 diwrnod. | Heb ei bennu | Heb ei bennu | Heb ei bennu | 85 | 78 | 69 |
| Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i ymchwilio i achosion gorfodi | Heb ei bennu | Heb ei bennu | Heb ei bennu | 74 | 130 | 140 |
| Canran yr achosion gorfodi lle cymerwyd camau gorfodi neu ganiatau cais ôl-weithredol o fewn 180 diwrnod o ddechrau'r achos (yn yr achosion hynny lle'r oedd mantais i orfodi)? | Heb ei bennu | Heb ei bennu | Heb ei bennu | 73 | 73 | 70 |

| MESUR | DA | GWEDDOL | GWELLA | CYFARTALEDD CYMRU | ACLl Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Y LLYNEDD | ACLl Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ELENI |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i gymryd camau gorfodi | Heb ei bennu | Heb ei bennu | Heb ei bennu | 201 | 332 | 195 |

## ADRAN 1 – LLUNIO CYNLLUN

| **Dangosydd** | **01. A oes Cynllun Datblygu cyfredol yn ei le sydd o fewn cyfnod y cynllun?** | |
|---|---|---|
| **“Da”** | **“Gweddol”** | **“Angen gwella”** |
| Mae cynllun datblygu (CDLl neu CDU) ar waith ac o fewn cyfnod y cynllun | Amherthnasol | Nid oes cynllun datblygu yn ei le (gan gynnwys cynllun sydd wedi dod i ben) |

| **Perfformiad yr Awdurdod** | Oes |
|---|---|
| Mae gwaith hefyd ar y gweill i gael Cynllun newydd erbyn diwedd 2019. | |

| **Dangosydd** | **02. Y gwyriad, wrth baratoi’r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), oddi wrth y dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol, mewn misoedd.** | |
|---|---|---|
| **“Da”** | **“Gweddol”** | **“Angen gwella”** |
| Mae'r CDLl yn cael ei ddatblygu o fewn 12 mis i'r dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol. | Mae'r CDLl yn cael ei ddatblygu o fewn rhwng 12 a 18 mis i’r dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol. | Mae'r CDLl yn cael ei ddatblygu mwy na 18 mis yn hwyrach na'r dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol. |

| **Perfformiad yr Awdurdod** | Amherthnasol |
|---|---|
| Mae’r Cynllun presennol wedi’i fabwysiadu ac wrthi’n cael ei adolygu yn unol â'r Cytundeb Cyflawni. Mae'r Awdurdod yn gobeithio adennill 2 fis yn y cyfnod cyn yr Adneuo a ganiateir yn y Cytundeb Cyflawni. | |

| **Dangosydd** | **03. Adroddiadau Monitro Blynyddol wedi'u cynhyrchu yn dilyn mabwysiadu'r CDLl** | |
|---|---|---|
| **“Da”** | | **“Angen gwella”** |
| Mae'n amser cyflwyno AMB ac mae un wedi'i baratoi. | | Mae'n amser cyflwyno AMB, ac nid oes un wedi'i baratoi. |

| **Perfformiad yr Awdurdod** | Oes |
|---|---|
| Oes, unwaith eto, rydym wedi cyflwyno’r adroddiadau monitro blynyddol yn gyson o fewn yr amser gofynnol. Cymerwyd yr adroddiad monitro gerbron cyfarfodydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol fis Medi 2016 a 2017 a chymeradwywyd y ddau i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru, gweler isod:<br><br>Cofnod AMB yr APC 2015/16:<br>http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/Files/files/Committee/NPA/2016/September%2028/49 | |

16%20LDP%20Monitoring%20Report.pdf

Cofnod yr APC:
PENDERFYNWYD cymeradwyo Adroddiad Monitro Blynyddol 2015-16 ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2016.

Cofnod adroddiad AMB yr APC 2016/17:
http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/Files/files/Committee/NPA/2017/27%20September/40_17%20LDP%20Annual%20Monitoring%20Report.pdf

| **Dangosydd** | **04. Cyflenwad tir yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer tai ar hyn o bryd mewn blynyddoedd** | |
|---|---|---|
| **“Da”** | | **“Angen gwella”** |
| Mae gan yr awdurdod fwy na 5 mlynedd o gyflenwad o dir ar gyfer tai | | Mae gan yr awdurdod llai na 5 mlynedd o gyflenwad o dir ar gyfer tai |

| **Perfformiad yr Awdurdod** | 2 |
|---|---|
| Gweler y sylwadau yn gynharach yn yr adroddiad ynglŷn â'r mater hwn a'r camau a gymerir i fynd i'r afael â’r mater. | |

**ADRAN 2 – EFFEITHLONRWYDD**

| **Dangosydd** | **05. Canran y ceisiadau "mawr" a gafodd eu penderfynu o fewn y cyfnodau amser gofynnol.** | |
|---|---|---|
| **“Da”** | **“Gweddol”** | **“Angen gwella”** |
| Y targed i’w feincnodi | Y targed i’w feincnodi | Y targed i’w feincnodi |

| **Perfformiad yr Awdurdod** | 0 |
|---|---|
| Yn achos yr Awdurdod hwn, ac unrhyw Awdurdod Parc Cenedlaethol arall, gall mynegi'r dangosydd hwn fel canran yn unig fod yn gamarweiniol o bosibl gan mai nifer cymharol isel o geisiadau 'mawr' sy’n cael eu cyflwyno i awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Yn ystod eleni, dim ond 3 o geisiadau mawr a benderfynwyd gan yr Awdurdod.<br><br>Nid yw dynodiad statudol yn gwahardd datblygu, ond rhaid asesu cynigion ar gyfer datblygiad yn ofalus am eu heffaith ar y buddiannau treftadaeth naturiol hynny y mae’r dynodiad yn eu diogelu. Mewn Parciau Cenedlaethol, mae ystyriaethau arbennig yn berthnasol i gynigion datblygu mawr sy’n fwy cenedlaethol na lleol eu cymeriad.<br><br>Yr effaith ddifrifol bosibl y gallai datblygiad ei gael ar rinweddau'r Parc sy'n rhoi’r teitl 'Datblygiad Mawr' iddo, ac yn ogystal â bod angen i’r datblygiad fod yn unol â pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol, bydd rhaid i'r cynnig fodloni meini prawf polisïau cynllunio cenedlaethol cyn cael ei ganiatáu, a elwir yn 'Brawf Datblygiad Mawr'. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi'r union brawf o ran profi | |

| |
|---|
| bod angen y datblygiad, gan ymchwilio i'r modd y gellid cyflawni'r datblygiad mewn ffordd arall, a'r modd y mae'n effeithio ar yr amgylchedd a'r dirwedd.<br><br>Mae'r Datganiad Polisi ar gyfer y Parciau Cenedlaethol yng Nghymru "Gweithio Gyda'n Gilydd dros Gymru" (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2002) yn ailadrodd na ddylai datblygiadau mawr ddigwydd yn y Parc Cenedlaethol oni bai bod amgylchiadau eithriadol.<br><br>Roedd y 3 cais mawr a benderfynwyd yn ystod y flwyddyn hon yn ddarostyngedig i gytundebau A106 cymhleth, oedd wedi effeithio ar yr amser a gymerwyd i wneud penderfyniad terfynol.<br><br>Mae'r 'cyfnodau amser sy'n ofynnol' yn cyfeirio at estyniadau amser y cytunwyd arnynt, ac mae'r Awdurdod wedi cyflwyno system fwy cadarn yn ystod y misoedd diwethaf i sicrhau bod estyniadau amseroedd yn cael eu cytuno ar geisiadau sydd wedi mynd dros y cyfnod penderfynu gwreiddiol. |

| **Dangosydd** | **06. Amser ar gyfartaledd a gymerir i benderfynu ar geisiadau "mawr" mewn diwrnodau.** | |
|---|---|---|
| **"Da"** | **"Gweddol"** | **"Angen gwella"** |
| Y targed i'w feincnodi | Y targed i'w feincnodi | Y targed i'w feincnodi |

| **Perfformiad yr Awdurdod** | 448 |
|---|---|
| Dim ond 3 o geisiadau cynllunio mawr a benderfynwyd gan yr Awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd 2016/17. Roedd y ceisiadau mawr hyn yn ddarostyngedig i gytundebau A106 cymhleth, oedd wedi effeithio ar yr amser a gymerwyd i wneud penderfyniad terfynol.<br><br>Mae'r 'cyfnodau amser sy'n ofynnol' yn cyfeirio at estyniadau amser y cytunwyd arnynt, ac mae'r Awdurdod wedi cyflwyno system fwy cadarn yn ystod y misoedd diwethaf i sicrhau bod estyniadau amseroedd yn cael eu cytuno ar geisiadau sydd wedi mynd dros y cyfnod penderfynu gwreiddiol. | |

| **Dangosydd** | **07. Canran yr holl geisiadau a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol** | |
|---|---|---|
| **"Da"** | **"Gweddol"** | **"Angen gwella"** |
| Mae mwy na 80% o geisiadau yn cael eu penderfynu o fewn y cyfnod amser statudol. | Mae rhwng 60% a 80% o geisiadau yn cael eu penderfynu o fewn y cyfnod amser statudol. | Mae llai na 60% o geisiadau yn cael eu penderfynu o fewn y cyfnod amser statudol |

| **Perfformiad yr Awdurdod** | 80 |
|---|---|
| Roedd yr Awdurdod wedi syrthio i'r categori "Gweddol". Mae canran y ceisiadau a benderfynwyd o fewn y cyfnod amser statudol i'w briodoli yn rhannol i'r ffaith bod yr adran Rheoli Datblygu heb reolwr am rhyw 4 mis o'r cyfnod adrodd.<br><br>Mae'r 'cyfnodau amser sy'n ofynnol' yn cyfeirio at estyniadau amser y cytunwyd arnynt, ac mae'r Awdurdod wedi cyflwyno system fwy cadarn yn ystod y misoedd diwethaf i sicrhau bod estyniadau | |

| |
|---|
| amseroedd yn cael eu cytuno ar geisiadau sydd wedi mynd dros y cyfnod penderfynu gwreiddiol. Dylai'r perfformiad yn y maes hwn felly wella yn y dyfodol. |

| Dangosydd | 08. Yr amser ar gyfartaledd a gymerwyd i benderfynu ar yr holl geisiadau mewn diwrnodau | |
|---|---|---|
| **"Da"** | **"Gweddol"** | **"Angen gwella"** |
| Llai na 67 diwrnod | Rhwng 67 a 111 diwrnod | 112 diwrnod neu fwy |

| Perfformiad yr Awdurdod | 61 |
|---|---|
| Mae'r Awdurdod wedi cwrdd â'r targed o llai na 67 diwrnod i benderfynu ar bob cais ac mae wedi llwyddo i benderfynu ar bob cais mewn 61 diwrnod ar gyfartaledd. Mae perfformiad yr Awdurdod yn cymharu'n eithriadol o dda yn erbyn Cyfartaledd Cymru o 76 diwrnod. | |

**ADRAN 3 – ANSAWDD**

| Dangosydd | 09. Canran y penderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn groes i gyngor swyddogion | |
|---|---|---|
| **"Da"** | **"Gweddol"** | **"Angen gwella"** |
| Llai na 5% o benderfyniadau | Rhwng 5% a 9% o benderfyniadau | 9% neu fwy o benderfyniadau |

| Perfformiad yr Awdurdod | 9 |
|---|---|
| Mae'r Awdurdod wedi syrthio i'r categori 'Angen gwella'. Fodd bynnag, o gyfanswm nifer y ceisiadau a benderfynwyd gan yr Awdurdod yn rhinwedd ei swyddogaeth fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol, dim ond canran fechan a benderfynwyd yn groes i gyngor y swyddogion.<br><br>Mae aelodau APCAP yn cymryd eu swyddogaeth gynllunio yn ddifrifol iawn ac maent yn wybodus ac yn cymryd rhan yn y broses gynllunio. Mae'r swyddogion yn trefnu ymweliadau safle ar geisiadau cymhleth neu geisiadau mawr cyn ystyried y mater yn llawn mewn cyfarfod pwyllgor. Mae hyn yn gymorth i roi gwybodaeth lawn i'r aelodau cyn gwneud penderfyniad - gellir egluro unrhyw faterion y mae angen eglurder arnynt a'u datrys ar y cyfle cynharaf hwn. Mae'r ymgeiswyr hefyd yn gwerthfawrogi'r drefn hon. | |

| Dangosydd | 10. Canran yr apeliadau gafodd eu gwrthod | |
|---|---|---|
| **"Da"** | **"Gweddol"** | **"Angen gwella"** |
| Mwy na 66% (dwy rhan o dair) o'r penderfyniadau cynllunio wedi'u hamddiffyn yn llwyddiannus adeg apêl | Rhwng 55% a 66% o'r penderfyniadau cynllunio wedi'u hamddiffyn yn llwyddiannus adeg apêl | Llai na 55% o'r penderfyniadau cynllunio wedi'u hamddiffyn yn llwyddiannus adeg apêl |

| Perfformiad yr Awdurdod | 83 |
|---|---|

| |
|---|
| Mae'r Awdurdod wedi cyrraedd y targed yn llwyddiannus gyda chyfradd llwyddiant o 83%, sy'n uwch na'r targed o 66%. Mae perfformiad yr Awdurdod yn cymharu'n eithriadol o dda yn erbyn Cyfartaledd Cymru o 61%. |

| Dangosydd | **11. Ceisiadau am gostau mewn apêl Adran 78 a gafodd eu cadarnhau yn y cyfnod adrodd** | |
|---|---|---|
| **"Da"** | **"Gweddol"** | **"Angen gwella"** |
| Nid yw'r awdurdod wedi gorfod talu costau unrhyw apêl yn ei erbyn | Mae'r awdurdod wedi gorfod talu costau un apêl yn ei erbyn | Mae'r awdurdod wedi gorfod talu costau dwy apêl neu fwy yn ei erbyn |

| Perfformiad yr Awdurdod | 1 |
|---|---|
| 1 achos lle dyfarnwyd costau yn rhannol ar apêl ar un amod. Ni ddyfarnwyd unrhyw gostau ar apêl ar yr amodau eraill. | |

**ADRAN 4 – YMGYSYLLTU**

| Dangosydd | **12. A yw'r awdurdod cynllunio lleol yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio?** | |
|---|---|---|
| **"Da"** | | **"Angen gwella"** |
| Mae aelodau'r cyhoedd yn gallu annerch y Pwyllgor Cynllunio. | | Nid yw aelodau'r cyhoedd yn gallu annerch y Pwyllgor Cynllunio. |

| Perfformiad yr Awdurdod | Ydy |
|---|---|
| Mae gan yr Awdurdod bolisi clir a gweithdrefn bendant ar yr hawl i siarad yn y pwyllgor Rheoli Datblygu, gyda chaniatâd i siaradwyr gael hyd at 5 munud i annerch y pwyllgor. Mae manylion am y trefniadau siarad cyhoeddus wedi'u nodi ar y wefan: http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/default.asp?PID=307 | |

| Dangosydd | **13. A oes gan yr awdurdod cynllunio lleol swyddog ar ddyletswydd i roi cyngor i aelodau'r cyhoedd?** | |
|---|---|---|
| **"Da"** | | **"Angen gwella"** |
| Gall aelodau'r cyhoedd ofyn am gyngor gan swyddog cynllunio ar ddyletswydd. | | Nid oes swyddog cynllunio ar gael ar ddyletswydd. |

| Perfformiad yr Awdurdod | Oes |
|---|---|
| Mae gan yr Awdurdod gymhorthfa wythnosol ar faterion cynllunio lle cynigir apwyntiad o hanner awr. Mae'r gymhorthfa yn hynod o boblogaidd ac yn cynnig gwasanaeth gwerthfawr i'r cyhoedd. Mae'r gymhorthfa wythnosol fel arfer yn llawn. Fodd bynnag, gall y cyhoedd fel arfer wneud | |

| |
|---|
| apwyntiad o fewn 7 diwrnod i'w cais, ac felly bernir nad oes angen ar hyn o bryd i ehangu'r gwasanaeth, er y bydd hyn yn cael ei adolygu. Mae'r gwasanaeth hwn yn arbennig o werthfawr i aelodau'r cyhoedd nad oes ganddynt asiant ac sy'n prosesu eu ceisiadau deiliaid tai eu hunain ac nad oes ganddynt unrhyw wybodaeth flaenorol o'r system gynllunio. Nid yw ymholiadau cyn-ymgeisio, gorfodaeth na cheisiadau cynllunio sydd eisoes wedi'u dyrannu i swyddog achos, yn faterion i'w trafod yn y gymhorthfa gynllunio hon, ac mae'r ceisiadau am gyfarfodydd yn cael eu trefnu yn ôl y gofyn. |

| **Dangosydd** | **14. A oes gan wefan yr awdurdod cynllunio lleol gofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio sydd ar gael i aelodau'r cyhoedd olrhain camau'r ceisiadau (a gweld eu cynnwys)?** | |
|---|---|---|
| **"Da"** | **"Gweddol"** | **"Angen gwella"** |
| Mae pob dogfen ar gael ar-lein | Dim ond manylion y cais cynllunio sydd ar gael ar-lein, a rhaid ceisio cael mynediad i ddogfennau eraill yn uniongyrchol. | Ni chyhoeddir gwybodaeth am geisiadau cynllunio ar-lein. |

| **Perfformiad yr Awdurdod** | Rhannol |
|---|---|
| Mae gan yr Awdurdod y cyfleuster ar-lein lle gellir gweld manylion y cais ar-lein, gan gynnwys disgrifiad, swyddog achos, penderfyniad a manylion eraill. Mae adroddiad y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar gael ar-lein ac mae'n cynnwys delweddau o'r cynlluniau perthnasol ar gyfer pob cais a ystyrir. Mae'r system yn gyfyngedig o ran nad yw'r dogfennau sy'n ategu'r cais ar gael i'w gweld ar-lein. O ran ceisiadau mawr, mae'r Awdurdod yn lan-lwytho cynlluniau a dogfennau allweddol y cais i'r wefan.<br><br>Mae'r Awdurdod yn mynd i'r afael â'r cyfyngiad hwn, ac yn y broses o weithredu system rheoli dogfennau fydd yn ddefnyddiol iawn i'r cyhoedd, yr ymgeisydd, yr asiant, eraill sydd â budd ac i'r Awdurdod. Rhagwelir y bydd mynediad i'r we i ddogfennau ar gael erbyn diwedd 2017. | |

**ADRAN 5 – GORFODI**

| **Dangosydd** | **15. Canran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt (i benderfynu a yw rheolaeth gynllunio wedi'i thorri, ac os ydyw, penderfynu a fydd mantais mewn cymryd camau gorfodi) o fewn 84 diwrnod.** | |
|---|---|---|
| **"Da"** | **"Gweddol"** | **"Angen gwella"** |
| Y targed i'w feincnodi | Y targed i'w feincnodi | Y targed i'w feincnodi |

| **Perfformiad yr Awdurdod** | 69 |
|---|---|
| Nid yw'r targed hwn wedi'i feincnodi. Fodd bynnag mae canran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod yn is na chyfartaledd Cymru o 85%. Mae hyn i'w briodoli yn rhannol i'r ffaith bod yr adran Rheoli Datblygu wedi bod heb reolwr am gyfnod o rhyw 4 mis o'r cyfnod adrodd a heb un Swyddog Gorfodi am 6 mis o'r cyfnod adrodd. | |

| |
|---|
| Mae adolygiad o broses y swyddogaeth orfodi wedi cael gwared ar rai camau sy'n effeithio'n gadarnhaol ar ganran yr achosion gorfodi a archwiliwyd o fewn 84 diwrnod. |

| Dangosydd | 16. Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i ymchwilio i achosion gorfodi. | |
|---|---|---|
| "Da" | "Gweddol" | "Angen gwella" |
| Y targed i'w feincnodi | Y targed i'w feincnodi | Y targed i'w feincnodi |

| Perfformiad yr Awdurdod | 140 |
|---|---|
| Nid yw'r targed hwn wedi'i feincnodi. Fodd bynnag mae'r nifer o ddiwrnodau i ymchwilio i achosion gorfodi yn uwch na chyfartaledd Cymru o 74 diwrnod. Mae hyn i'w briodoli yn rhannol i'r ffaith bod yr adran Rheoli Datblygu wedi bod heb reolwr am gyfnod o rhyw 4 mis o'r cyfnod adrodd a heb un Swyddog Gorfodi am 6 mis o'r cyfnod adrodd.<br><br>Mae adolygiad o broses y swyddogaeth orfodi wedi cael gwared ar rai camau sy'n effeithio'n gadarnhaol ar y nifer o ddiwrnodau i ymchwilio i achosion gorfodi. | |

| Dangosydd | 17. Canran yr achosion gorfodi lle cymerwyd camau gorfodi neu lle caniatawyd cais ôl-weithredol o fewn 180 o ddiwrnodau ar ôl dechrau'r achos (yn yr achosion lle'r oedd mantais mewn cymryd camau gorfodi). | |
|---|---|---|
| "Da" | "Gweddol" | "Angen gwella" |
| Y targed i'w feincnodi | Y targed i'w feincnodi | Y targed i'w feincnodi |

| Perfformiad yr Awdurdod | 70 |
|---|---|
| Nid yw'r targed hwn wedi'i feincnodi. Fodd bynnag mae'r ganran o achosion gorfodi lle cymerir camau gorfodi neu lle derbynnir cais ôl-weithredol cyn pen 180 diwrnod o ddechrau'r achos, fymryn yn is na chyfartaledd Cymru o 73%. Mae hyn i'w briodoli yn rhannol i'r ffaith bod yr adran Rheoli Datblygu wedi bod heb reolwr am gyfnod o rhyw 4 mis o'r cyfnod adrodd a heb un Swyddog Gorfodi am 6 mis o'r cyfnod adrodd.<br><br>Yn ogystal, nid yw Llywodraeth Cymru bellach yn adrodd ar yr ystadegyn hwn, gan y gall yr amser fod y tu allan i reolaeth Awdurdod Lleol os cyflwynir apêl. | |

| Dangosydd | 18. Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i gymryd camau gorfodi | |
|---|---|---|
| "Da" | "Gweddol" | "Angen gwella" |
| Y targed i'w feincnodi | Y targed i'w feincnodi | Y targed i'w feincnodi |

| Perfformiad yr Awdurdod | 195 |
|---|---|

Nid yw'r targed hwn wedi'i feincnodi. Fodd bynnag mae'r amser a gymerir ar gyfartaledd i gymryd camau gorfodi yn is na chyfartaledd Cymru o 200 diwrnod.

**ADRAN 6 – DANGOSYDDION YNGHYLCH DATBLYGU CYNALIADWY**

Diben y Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy yw mesur y cyfraniad y mae'r system gynllunio yn ei wneud i ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru.

Bydd y Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy yn cael eu defnyddio i fesur y camau a gymerwyd yn erbyn amcanion cynaliadwyedd cynllunio cenedlaethol, a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru, a gellir eu defnyddio i ddangos i'n rhanddeiliaid rôl a chwmpas y system gynllunio o ran cyflawni amcanion ehangach. Hefyd bydd y wybodaeth yn ddefnyddiol i awdurdodau cynllunio lleol ddeall mwy am ganlyniadau'r system gynllunio a helpu i lywio penderfyniadau yn y dyfodol.

| **Manylion yr Awdurdod** | |
|---|---|
| Darperir data ar gyfer pob dangosydd ac eithrio'r ffigwr ar dir a ddatblygwyd o'r blaen mewn hectarau dan ddangosydd SD5 gan nad yw'r data hwn ar gael. Fodd bynnag, darperir sylwadau ar gyfer y dangosydd hwn. | |

| Dangosydd | **SD1. Yr arwynebedd llawr (metrau sgwâr) ar gyfer datblygiad economaidd newydd y rhoddwyd neu y gwrthodwyd caniatâd ar ei gyfer ar safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd yn ystod y flwyddyn.** |
|---|---|

| **Caniatawyd (metrau sgwâr)** | |
|---|---|
| **Data'r Awdurdod** | 0 |

| **Gwrthodwyd (metrau sgwâr)** | |
|---|---|
| **Data'r Awdurdod** | 0 |

Nid yw safleoedd a ddyrennir at ddibenion cyflogaeth wedi dod ymlaen i'w datblygu. Mae 3 safle wedi'u dyrannu ac nid yw'r gwaith datblygu yn mynd rhagddo. Ymhlith y rhesymau am hyn mae diffyg diddordeb gan y tirberchennog, diffyg diddordeb gan y datblygwr, a materion sy'n ymwneud â hyfywedd dod â safleoedd cyflogaeth ymlaen lle mae diffyg arian cyhoeddus. Cafodd 773 o geisiadau eu cymeradwyo ar gyfer defnydd sy'n ymwneud â chyflogaeth yn ystod cyfnod y Cynllun (ar ddiwedd mis Ebrill 2017) ac nid yw'r rhain ar safleoedd a ddyrannwyd. Ni chafodd unrhyw ganiatâd cynllunio ei wrthod.

| Dangosydd | **SD2. Caniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn ystod y flwyddyn.** |
|---|---|

| **Caniatawyd (nifer y ceisiadau)** | |
|---|---|
| **Data'r Awdurdod** | 11 |

| **Caniatawyd (yr ynni MW a gynhyrchwyd)** | |
|---|---|
| **Data'r Awdurdod** | 0.354 Gwh |

Mae Cynhyrchu Gwh (amcangyfrif) o Drydan yn cyfateb i amcangyfrif o 7.79 Gwh os gweithredir pob caniatâd a roddwyd ers 2006. Mae hyn yn gynnydd o 0.179 Gwh o'r cyfnod monitro blaenorol. Mae'r cynigion yn bennaf ar gyfer paneli haul ffotofoltäig sydd wedi'u hymgorffori mewn dyluniadau adeiladau (0.132Gwh). Hefyd bu cyfraniad bach o gynhyrchu trydan drwy dyrbinau gwynt ar raddfa ficro (0.047Gwh).

Mae Cynhyrchu Gwh (amcangyfrif) o Wres y flwyddyn yn cyfateb i 4.235 Gwh yn bennaf o baneli thermol solar. Mae hyn yn gynnydd o 0.175 Gwh o'r cyfnod monitro blaenorol o fwyleri biomas. Nid yw'r ceisiadau a ddisgwyliwyd, megis ceisiadau am fwyleri biomas mwy o faint i ysgolion, wedi dod i law. Fodd bynnag, mae fframwaith polisi cadarnhaol yn dal ar waith.

Yr ymagwedd tuag at baratoi polisïau'r Cynllun oedd sicrhau bod yr Awdurdod yn annog ac yn gefnogol i ynni adnewyddadwy oni bai bod materion amgylcheddol neu amwynder tra phwysig. Mae dadansoddiad o'r achosion gafodd eu cymeradwyo yn erbyn yr achosion gafodd eu gwrthod yn dangos bod rhyw 32 achos lle gwrthodwyd caniatâd a 175 wedi'u cymeradwyo ar gyfer gwahanol fathau o ynni adnewyddadwy ers 2006. Mae hyn yn gynnydd o 11 cymeradwyaeth a dim un wedi'i

| |
|---|
| wrthod o'r cyfnod monitro blaenorol. Fodd bynnag, dim ond mewn cyfanswm o 6 penderfyniad y dyfynnwyd Polisi 33 o'r Cynllun Datblygu Lleol yn y cyfnod monitro hwn, ac roedd y rhan fwyaf o'r ceisiadau a gymeradwywyd yn gynlluniau oedd yn ymgorffori technoleg ynni adnewyddadwy fel rhan o gynnig ehangach. |

| Dangosydd | SD3. Nifer yr anheddau y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn. |
|---|---|

| **Tai'r farchnad agored (nifer yr unedau)** | |
|---|---|
| **Data'r Awdurdod** | 85 |

| **Tai fforddiadwy (nifer yr unedau)** | |
|---|---|
| **Data'r Awdurdod** | 19 |

| |
|---|
| Mae'r gallu i sicrhau tai fforddiadwy drwy ddarparu tai ar y farchnad agored wedi bod yn heriol. Mae nifer yr anheddau a gafodd ganiatâd yn cynnwys cyfran uchel o geisiadau am anheddau sengl, sy'n sbarduno'r gofyniad am gyfraniad tuag at dai fforddiadwy yn hytrach nag uned tai fforddiadwy. Mae'r cyfraniad hwn wedi'i amlygu yn SD07 isod. |

| Dangosydd | SD4. Nifer y ceisiadau am ganiatâd cynllunio i ddatblygu ar orlifdiroedd C1 a C2 a ganiatawyd ac a wrthodwyd yn ystod y flwyddyn. |
|---|---|

| **Nifer yr unedau preswyl (a nifer hectarau'r unedau amhreswyl) NAD OEDDENT yn bodloni'r holl feini prawf yn TAN 15 y RHODDWYD caniatâd ar eu cyfer** | |
|---|---|
| **Data'r Awdurdod** | 0 |

| **Nifer yr unedau preswyl (a nifer hectarau'r unedau amhreswyl) nad oeddent yn bodloni'r holl feini prawf yn TAN 15 NA RODDWYD caniatâd ar eu cyfer ar sail risg llifogydd** | |
|---|---|
| **Data'r Awdurdod** | 0 |

| **Nifer yr unedau preswyl (a nifer hectarau'r unedau amhreswyl) oedd yn BODLONI'R holl feini prawf yn TAN 15 y RHODDWYD caniatâd ar eu cyfer** | |
|---|---|
| **Data'r Awdurdod** | 0 |

| |
|---|
| **Dadansoddiad:** Mae pob cais o fewn yr ardaloedd a glustnodwyd gan Nodyn Cyngor Technegol 15 neu gan y Cynllun Rheoli Traethlin fel ardaloedd lle mae potensial am lifogydd wedi cael eu sgrinio gan Gyfoeth Naturiol Cymru (Asiantaeth yr Amgylchedd gynt). Nid oedd unrhyw gynigion oedd yn groes i Bolisi 34 o'r Cynllun wedi cael caniatâd. Bu dau achos lle roedd y cynigion yn cynnwys cyflwyno neu ddwysáu defnydd preswyl wedi eu lleoli yn gyfan gwbl neu'n rhannol mewn Parthau llifogydd C2 (Amroth a Saundersfoot). Hefyd bu ymholiad cyn-ymgeisio arall yn ymwneud â chynnig tebyg yn Amroth. Ym mhob achos mae'r Awdurdod wedi mynegi pryder ynghylch y ceisiadau fyddai'n dwysáu defnydd preswyl neu ddefnydd perygl arall ac yn groes i Bolisi 34 y Cynllun |

| |
|---|
| Datblygu Lleol a'r polisi cynllunio cenedlaethol fel y nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru. Ym mhob achos ni chefnogwyd pryder yr Awdurdod gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac nid ydynt wedi codi unrhyw wrthwynebiad i'r cynigion. Byddai'n ddefnyddiol i swyddogion yr Awdurdod geisio eglurhad am y cyngor a roddir gan Gyfoeth Naturiol Cymru.<br><br>**Casgliad:** Mae'r cyd-destun polisi a nodir yn Nodyn Cyngor Technegol 15 ac yn y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei weithredu gan Swyddogion yr Awdurdod ond ymddengys bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cymryd agwedd wahanol. Mae angen ceisio eglurhad. |

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **SD5. Arwynebedd y tir (ha) lle rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu newydd ar dir sydd eisoes wedi cael ei ddatblygu a thir maes glas yn ystod y flwyddyn.** |

| **Tir sydd eisoes wedi cael ei ddatblygu (hectarau)** | |
|---|---|
| **Data'r Awdurdod** | Nid yw'r ffigur ar gael mewn hectarau. Gweler y sylwadau isod. |

| **Tir maes glas (hectarau)** | |
|---|---|
| **Data'r Awdurdod** | 5.4ha |

**Tir a ddatblygwyd o'r blaen (hectarau)**

Nid yw'r ffigur hectarau ar gyfer tir a ddatblygwyd o'r blaen ar gael.

Targed y Cynllun Datblygu Lleol yw bod 33% o'r cyflenwad tir ar gyfer tai yn cael ei ddarparu ar dir a ddatblygwyd o'r blaen a 45% o'r tir cyflogaeth ar dir a ddatblygwyd o'r blaen.

Tai: roedd 17.2% o unedau preswyl wedi'u cwblhau ar safleoedd tir glas ac 82.8% ar safleoedd tir llwyd pan ystyriwyd y targed hwn yn yr Adolygiad o'r Cynllun. Mae'r Cynllun ymhell o flaen y targed ar gyfer datblygiadau preswyl a ganiateir. Yn ystod cyfnod monitro 2015/16 roedd 82.2% o'r tai a gwblhawyd ar safleoedd tir llwyd ac yn 2016/17 roedd 85% ar safleoedd tir llwyd, sy'n dangos patrwm sy'n parhau i fod yn gadarnhaol.

Defnydd sy'n gysylltiedig â chyflogaeth: Yn ystod 2016/17, roedd y gyfran o geisiadau a gymeradwywyd ar safleoedd tir glas yn 23% a 77% ar dir llwyd. Mae'r targed wedi'i gyrraedd.

Casgliad: Nid oes angen newid mewn dulliau o gyrraedd targedau tir llwyd ar gyfer tai neu ar gyfer defnydd sy'n gysylltiedig â chyflogaeth.

**Tir glas (Hectarau)**

Cymeradwywyd 19 cais cynllunio oedd yn cynnwys datblygu tir glas yn ystod y cyfnod monitro. Roedd hyn yn gyfystyr â datblygiad 5.36ha o dir glas.
O'r 19 cais:

- Roedd 1 ar gyfer Cynnig Datblygu Un Blaned;
- Roedd 2 ar gyfer maes gwersylla, a gafodd Dystysgrifau Cyfreithlondeb;
- Roedd 4 ar gyfer gweithwyr amaethyddol neu weithwyr menter gwledig oedd yn bodloni

cyfiawnhad polisi cenedlaethol;
- Roedd 5 ar gyfer adeiladau amaethyddol;
- Roedd 1 ar gyfer atyniad adar ysglyfaethus o fewn tir atyniad presennol;
- Roedd 1 yn gynnig arallgyfeirio ar fferm ar gyfer adeilad newydd i'w osod fel llety gwyliau;
- Roedd 3 yn seiliau ar gyfer strwythurau mast ac offer ategol;
- Roedd 1 ar gyfer defnyddio tir a glustnodwyd fel man agored i'w ddatblygu ar gyfer llety ymwelwyr. Sefydlwyd y cynsail gan gais blaenorol ar y safle hwn.

Casgliad: Roedd pob un o'r ceisiadau ar gyfer datblygu safleoedd tir glas yn bodloni polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol a/neu'r polisi cynllunio cenedlaethol.

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **SD6. Arwynebedd y mannau agored cyhoeddus (ha) fyddai'n cael ei golli a'i ennill o ganlyniad i ddatblygu y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar ei gyfer yn ystod y chwarter blwyddyn.** |

| **Mannau agored a gollir (hectarau)** | |
|---|---|
| **Data'r Awdurdod** | 0.06ha |

| **Mannau agored a enillir (hectarau)** | |
|---|---|
| **Data'r Awdurdod** | 0 |

Rhoddwyd caniatâd i un cais ar dir a glustnodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol fel Man Agored, gan fod y tir wedi'i ddefnyddio i'r diben hwnnw cyn i'r Cynllun gael ei fabwysiadu. Wedi hynny cafodd y tir ei brynu ac nid oedd yn agored i'r cyhoedd ac nid oedd unrhyw werth amwynder i'r tir gan na ellid yn gyffredinol gweld y tir o olygfannau i'r cyhoedd. Roedd yr asesiad o'r man agored hefyd wedi canfod bod digon o fannau hamdden yn y pentref. Cafodd y tir ganiatâd cynllunio yn y lle cyntaf ar gyfer ei ddatblygu yn 2011.

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **SD7. Cyfanswm y cyfraniadau ariannol (£) ar gyfer darparu seilwaith cymunedol y cytunwyd arnynt wrth roi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu newydd yn ystod y flwyddyn.** |

| **Enillwyd drwy gytundebau Adran 106 (£)** | |
|---|---|
| **Data'r Awdurdod** | £427,204.80 |

| **Enillwyd drwy'r Ardoll Seilwaith Cymunedol (£)** | |
|---|---|
| **Data'r Awdurdod** | 0 |

| Cyfanswm Cyfraniadau a enillwyd drwy gytundebau Adran 106 | Swm | Nodiadau |
|---|---|---|
| Tai Fforddiadwy | £296,451.00 | Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys pedwar cytundeb i'w cyfrifo ar £150 fesul metr sgwâr - NP/16/0435, NP/16/0673, NP/16/0642, NP/16/0141 |
| Trafnidiaeth | £5,000.00 | |
| Addysg | £111,624.80 | Amcangyfrif yw £107,240.00 o’r swm hwn |
| Man Agored Cyhoeddus | £14,129.00 | |
| Cyfanswm a enillwyd | £427,204.80 | |